

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 4 Medi 2017

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: POLISI

Teitl: Cyfamod y Lluoedd Arfog – Blaenoriaeth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad: Medi 2020

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr y Bwrdd Iechyd
Prif Weithredwyr Ymddiriedolaethau'r GIG
Is-gadeiryddion y Bwrdd Iechyd
Cyn-filwr y Bwrdd Iechyd ac Arweinydd
Gweithredol y Lluoedd Arfog

Angen gweithredu erbyn: Yn syth

Gweler paragraff 5.1 – 5.7

Anfonwr: Dr Liz Davies, Pennaeth Is-Adran Grwpiau Iechyd Meddwl ac Agored i Niwed, Uwch Swyddog Meddygol, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd, Llywodraeth Cymru

Enw(au) Cyswllt GIG Llywodraeth Cymru :

Richard Hockey, Iechyd Meddwl a Grŵpiau Agored i Niwed, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Ffon: 03000 251470 Ebst: mentalhealthandvulnerablegroups@gov.wales

Dogfennau amgaaedig: Gellir cael mynediad drwy ddolenni hyperlinc

Cyfamod y Lluoedd Arfog – Blaenoriaeth Gofal Iechyd i Gyn-filwyr

1. Crynodeb

- 1.1. Mae gan bob cyn-filwr o'r Lluoedd Arfog hawl i gael blaenoriaeth o ran mynediad i ofal y GIG (yn cynnwys gofal ysbyty, gofal sylfaenol neu ofal cymunedol) ar gyfer unrhyw gyflyrau (meddyliol a chorfforol) sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'u gwasanaeth milwrol neu'n deillio ohono (cysylltiedig â gwasanaeth). Cânt blaenoriaeth dros gleifion gyda'r un lefel o anghenion clinigol a **DIM OND** ar gyfer cyflyrau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth. Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i apwyntiadau meddyg teulu.

2. Gweithredu

- 2.1. **Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG** – Codi ymwybyddiaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog a'r ymrwymiad i ddarparu triniaeth â blaenoriaeth i gyn-filwyr sy'n dioddef o gyflyrau iechyd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u Gwasanaeth ymysg meddygon teulu, meddygon ymgynghorol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a staff gweinyddol, wrth atgyfeirio cleifion am ddiagnosis neu driniaeth, neu drefnu rhestrau aros.

3. Cefndir

- 3.1. Diben y cylchlythyr hwn yw diweddarau ac egluro canllawiau ar **Driniaeth â Blaenoriaeth a Gofal Iechyd i Gyn-filwyr (WHC (2008) 051)** ac i gadarnhau ymrwymiad Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- 3.2. Mae'r Cyfamod yn nodi'r berthynas rhwng y Genedl, y Wladwriaeth a'r Lluoedd Arfog. Mae'n cydnabod bod gan y genedl gyfan gyfrifoldeb foesol i aelodau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, ac yn nodi sut y disgwylir iddynt gael eu trin.
- 3.3. Yn 2015, amcangyfrifodd y Weinyddiaeth Amddiffyn fod 140,000 o gyn-filwyr yn byw yng Nghymru, sef tua 6% o'r boblogaeth. Mae hyn yn golygu y gallai tua 450 o gyn-filwyr fod wedi cofrestru mewn unrhyw feddygfa, gyda chrynodeiad uwch mewn ardaloedd sydd â barics mawr.
- 3.4. Bydd gan y rhan fwyaf o gyn-filwyr anghenion iechyd a chymdeithasol sydd yr un fath â'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, bydd gan rai gyflyrau corfforol neu feddyliol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u gwasanaeth milwrol.

4. Diffiniad

- 4.1. Cyn-filwr yw unrhyw un sydd wedi gwasanaethu am o leiaf ddiwrnod yn Lluoedd Arfog EM (y Llynges Frenhinol, y Fyddin, y Morlu Brenhinol neu'r Awyrlu Brenhinol) boed fel milwr rheolaidd neu filwr wrth gefn neu Forwyr a Physgotwyr y Llynges Fasnachol fu'n gwasanaethu ar long ar

adeg pan oedd yn gweithio i hwyluso ymgyrch filwrol gan Lluoedd Arfog EM.

- 4.2. Gallant fod wedi gwasanaethu am un diwrnod neu dros 40 mlynedd, cyflawni unrhyw grefft neu broffesiwn o blith nifer helaeth a gwasanaethu bron unrhyw le yn y byd.
- 4.3. Nid yw llawer o gyn-filwyr wedi brwydro o gwbl ac mae rhai wedi gadael cyn cwblhau eu hyfforddiant. Fodd bynnag, bydd llawer wedi bod yn rhan o ymgyrchoedd dwys, peryglus llawn straen, yn cynnwys ymladd mewn ymgyrchoedd diweddar.

5. Canllawiau

- 5.1. Gofynnir i feddygon teulu sy'n atgyfeirio claf y maent o'r farn ei fod yn gyn-filwr, neu y maent yn gwybod ei fod yn gyn-filwr, i ystyried a yw'r cyflwr yn gysylltiedig â gwasanaeth milwrol y claf yn eu barn clinigol nhw.
- 5.2. Mewn achos o'r fath, dylid datgan statws y cyn-filwr yn glir yn yr atgyfeiriad gyda chaniatâd y claf, gan ddefnyddio cod clinigol neu gymal clinigol cyson.
- 5.3. Pan fo meddygon ymgynghorol neu weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cytuno, ar sail tebygolrwydd, bod cyflwr y cyn-filwr yn gysylltiedig â gwasanaeth y claf, gofynnir iddynt flaenoriaethu cyn-filwyr dros gleifion eraill gyda'r un lefel o angen clinigol.
- 5.4. **DIM OND** i gyflyrau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth y mae triniaeth â blaenoriaeth yn berthnasol. Ni fydd cyn-filwyr yn cael blaenoriaeth dros gleifion eraill sydd ag anghenion clinigol mwy brys.
- 5.5. Dylai'r rhai sy'n atgyfeirio ymhellach rhwng meddygon ymgynghorol neu weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd nodi statws y cyn-filwr yn yr atgyfeiriad.
- 5.6. Wrth atgyfeirio cyn-filwr am ofal pellach gellid defnyddio'r geiriad canlynol i ofyn am driniaeth â blaenoriaeth.
- 5.7. *Mae'r claf hwn yn gyn-filwr gyda'r Lluoedd Arfog. Rwy'n ystyried y gallai ei gyflwr cyfredol fod yn gysylltiedig â gwasanaeth milwrol. Dylid ystyried yr atgyfeiriad hwn am driniaeth â blaenoriaeth o dan Gylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2017) 41.*

6. Adnabod / Gofyn y cwestiwn

- 6.1. Gall adnabod yr unigolyn fel cyn-filwr helpu i flaenoriaethu mynediad i wasanaethau'n briodol a sicrhau bod problemau meddyliol a chymdeithasol posibl yn cael eu hystyried. Efallai na fydd gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol yn gwybod bod gan yr unigolyn statws cyn-filwr ac na fydd yr unigolyn yn teimlo bod angen datgelu hyn. Lle bo'n briodol dylid gofyn, "**ydych chi wedi gwasanaethu yn y Lluoedd**

Arfog erioed” gan nad yw rhai cyn-staff y Lluoedd Arfog yn ystyried eu hunain fel cyn-filwyr.

- 6.2. O holi ymhellach efallai y gellir cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill a gweld iechyd a lles y claf yn ei gyd-destun.
- Pa wasanaeth oeddech chi ynddo – y Fyddin, y Llynges Frenhinol, y Morlu Brenhinol, yr Awyrlu Brenhinol?
 - Am ba hyd fuoch chi'n gwasanaethu?
 - Pryd wnaethoch chi adael?
 - Beth oedd eich swydd?
 - Ble yn y byd fuoch chi'n gwasanaethu?
 - Gawsoch chi broblemau iechyd o gwbl pan oeddech chi'n gwasanaethu, neu ar ôl i chi adael?
- 6.3. Mae ffurflen gofrestru GMS1W wedi'i diweddarau i gynnwys y cwestiwn hwn.

7. Cofnodi statws y cyn-filwr

- 7.1. Gofynnwyd i feddygon teulu Cymru gynnwys cod clinigol cyson ar gofnod electronig eu claf, naill ai 13q3 Wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog neu Ua0T3 Wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.
- 7.2. Bydd gweithredu Snowmed CT ledled Cymru yn darparu dull o gasglu cynrychiolaeth gyson o gymalau clinigol, dehongliad awtomatig o'r rhain ac o gefnogi rhannu gwybodaeth briodol ag eraill sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu gofal.
- 7.3. Os nad yw'r claf am i'r meddyg teulu gofnodi ei statws cyn-filwr ni ddylai'r wybodaeth gael ei chynnwys.

8. Adnoddau

- 8.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r gwaith o ddatblygu adnodd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Ymarferwyr Cyffredinol i helpu gweithwyr iechyd i gael dealltwriaeth well o'r materion iechyd a lles sy'n gysylltiedig â chyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'r adnodd hwn ar gael ar wefan Deoniaeth Cymru.
<http://gpcpd.walesdeanery.org/index.php/veterans-health-wellbeing>

9. Gwybodaeth / Dolenni Perthnasol

9.1. Canllawiau blaenorol

- 9.1.1. Dyma ddolen i'r canllawiau blaenorol WHC(2008)051 Triniaeth â Blaenoriaeth a Gofal Iechyd i Gyn-filwyr.
[www.wales.nhs.uk/documents/WHC\(2008\)051%20full.pdf](http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC(2008)051%20full.pdf)

9.2. Cyfamod y Lluoedd Arfog

9.2.1 Addewid gan Brydain i sicrhau bod y rhai sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg a chyda pharch yn y cymunedau, yr economi a'r gymdeithas maent yn ei gwasanaethu gyda'u bywydau.

<https://www.armedforcescovenant.gov.uk/>

9.2.2 Gan adeiladu ar Gyfamod y Lluoedd Arfog, mae dogfen Pecyn Cymorth Llywodraeth Cymru - 'Rhoi a Derbyn - Cefnogi a buddsoddi yng Nghymuned ein Lluoedd Arfog yng Nghymru' yn rhoi manylion am y cymorth sydd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru drwy wasanaethau datganoledig.

<http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/safety/armedforces/package-of-support/?skip=1&lang=cy>

9.3. GIG Cymru i Gyn-filwyr

9.3.1. Gwasanaeth gan y GIG i gyn-filwyr sydd angen cymorth ym maes iechyd meddwl.

9.3.2. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi penodi clinigydd profiadol fel Therapydd Cyn-filwyr gyda diddordeb mewn problemau iechyd (meddwl) milwrol neu brofiad yn y maes. Bydd y Therapydd yn derbyn atgyfeiriadau gan staff gofal iechyd, meddygon teulu, elusennau cyn-filwyr a hunanatgyfeiriadau gan gyn-staff y Lluoedd Arfog. Gellir cysylltu â'r Therapydd priodol drwy edrych ar dudalen y bwrdd iechyd ar wefan GIG Cymru i Gyn-filwyr. <http://www.veteranswales.co.uk/>

9.3.3. Bydd apwyntiadau'n cael eu trefnu mor agos i gartref y cyn-filwr â phosibl, mewn lleoliad addas. Nid yw'r gwasanaeth yn gallu ymateb i atgyfeiriadau brys.

9.3.4. Ar ôl cael ei asesu efallai y bydd y Therapydd yn cynnig therapi i'r cyn-filwr neu'n ei atgyfeirio i dimau neu adrannau eraill o'r GIG am driniaeth bellach. Bydd hefyd yn cyfeirio'r cyn-filwr at elusennau i gyn-filwyr i gael cymorth gyda rheoli dyledion, budd-daliadau a hawliadau pensiwn rhyfel/iawndal y lluoedd arfog fel y nodwyd.

9.4. Pencampwyr

9.4.1. Mae pencampwyr y cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog wedi'u sefydlu ym mhob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru. Maent yn eirioli ar ran cyn-filwyr a staff y Lluoedd Arfog i sicrhau bod cynlluniau gwasanaethau lleol yn cynnwys eu hanghenion. Mae'r pencampwyr yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd Iechyd Lleol ac yn cael eu cefnogi gan Gyfarwyddwr Gweithredol arweiniol.

9.4.2. Mae rhestr o Bencampwyr y Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog ar wefan Llywodraeth Cymru.

<http://llyw.cymru/docs/dhss/publications/170116veteranscy.pdf>

9.5. Veterans Gateway

9.5.1. Mae Veterans' Gateway yn darparu un pwynt cyswllt i gyn-filwyr sydd angen cyngor a chymorth. Mae hyn yn cynnwys cyngor gan amrywiaeth o sefydliadau, yn cwmpasu materion o gyflogaeth, arian a thai, i fyw'n annibynnol, lles meddyliol, iechyd corfforol, a theuluoedd a chymunedau.

9.5.2. Gall cyn-filwyr ffonio'r gwasanaeth bob awr o'r dydd a'r nos, bob dydd o'r wythnos ar 0808 802 1212 neu anfon eu manylion mewn neges destun i 81212 a bydd cynghorydd yn cysylltu â nhw cyn gynted â phosibl. Gall cyn-filwyr siarad â chynghorydd drwy e-bost neu Sgwrsio Byw ar wefan Veterans Gateway hefyd:
https://support.veteransgateway.org.uk/app/get_help

9.6. Cael cymorth i fyw heb freichiau neu goesau yng Nghymru

9.6.1. Gall colli braich neu goes wrth Wasanaethu fod yn brofiad llethol i gyn-filwr yn sgil y newidiadau i'w gorff a'i ffordd o fyw. Os yw cyn-filwr, sydd wedi cofrestru gyda meddyg teulu wedi cael llawdriniaeth i dorri ei fraich neu goes i ffwrdd, bydd yn gymwys i fynychu Canolfan Breichiau a Choesau'r GIG a fydd yn asesu ei anghenion symudedd. Bydd hyn ar gael am ddim lle bo'n berthnasol, yn seiliedig ar angen clinigol. Pan fydd y Gwasanaeth Lles Meddygol Amddiffyn yn darparu breichiau a choesau prosthetig i staff y Lluoedd Arfog bydd y rhain yn defnyddio technoleg arloesol yn aml. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r un gwasanaeth i gyn-filwyr. Gall y meddyg teulu neu'r ysbyty sydd wedi cyflawni'r llawdriniaeth atgyfeirio i'r Ganolfan Breichiau a Choesau briodol. Mae gan y GIG dair canolfan yng Nghymru ar hyn o bryd – yng Nghaerdydd, Abertawe a Wrecsam.

9.6.2. Mae gan y British Limbless Ex-Service Men's Association (Blesma) nifer o daflenni gwybodaeth am fyw heb freichiau neu goesau, sydd i'w cael ar eu gwefan.

9.7. Cyfarpar i gartrefi ac addasiadau

9.7.1. Gall salwch neu anabledd cyn-filwr sy'n gysylltiedig â gwasanaeth olygu ei fod angen cymhorthion neu addasiadau i'w helpu i fyw'n annibynnol gartref. Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal asesiad o anghenion. Bydd Therapydd Galwedigaethol yn asesu'r cyn-filwr a'r cartref ac yn argymhell yr addasiadau neu'r cyfarpar angenrheidiol.

9.7.2. Efallai mai'r awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am dalu am y cymhorthion a'r addasiadau hyn. Gall y Lleng Brydeinig Frenhinol gynnig cymorth a chyngor i gyn-filwyr ar y broses hefyd a chyllid a grantiau ar gyfer addasiadau yn y cartref.

http://support.britishlegion.org.uk/app/answers/detail/a_id/18/related/1